

<b>Adroddiad i'r</b>	Cyngor
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	7 Rhagfyr 2021
<b>Aelod/Swyddog Arweiniol</b>	Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, AD a Chyfreithiol
<b>Awdur yr adroddiad</b>	Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, AD a Chyfreithiol
<b>Teitl</b>	Penodi Cyfarwyddwr - Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad yn sôn am gyfansoddiad Bwrdd Cyfarwyddwyr Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig ('Bwrdd HSDd Cyf') a phenodi cyfarwyddwr i'r Bwrdd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i ddiwygio cyfansoddiad Bwrdd Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig a phenodi cyfarwyddwr yn dilyn ymddiswyddiad Graham Boase oherwydd iddo gael ei benodi fel Prif Weithredwr.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod y Cyngor yn cymeradwyo diwygio cyfansoddiad Bwrdd HSDd Cyf fel y nodir yn y paragraff
- 3.2. Bod y Cyngor yn penderfynu penodi Nicola Stubbins fel cyfarwyddwr Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig.

## 4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Fel unig aelod a pherchennog Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig, mae gan y Cyngor hawl i benodi neu gael gwared ar Gyfarwyddwyr ar Fwrdd HSDd Cyf.

4.2. Cymeradwywyd cyfansoddiad Bwrdd HSDd Cyf gan y Cyngor ym mis Hydref 2019 fel y nodir isod:

- Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a Pharth Cyhoeddus (yn wag ar hyn o bryd)
- Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth (Y Cynghorydd Bobby Feeley)
- Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd (Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts)
- Rheolwr Gyfarwyddwr (Jamie Groves)
- Cyfarwyddwr Annibynnol x 2 (Paul McGrady a Sian Rogers) ac
- Aelod heb fod o'r Cabinet (Y Cynghorydd Peter Prendergast)

4.3. Cafodd cyfansoddiad y Bwrdd Llywodraethu Strategol ei gymeradwyo gan y Cabinet ym mis Medi 2019. Cytunwyd y byddai'r Prif Weithredwr yn gweithredu fel Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethu Strategol.

4.4. Oherwydd bod Graham Boase wedi cael ei benodi'n Brif Weithredwr, bydd angen iddo ymddiswyddo o Fwrdd HSDd Cyf gan y bydd yn gweithredu fel Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethu Strategol yn rhinwedd ei rôl newydd.

4.5. Felly mae sedd wag ar Fwrdd HSDd Cyf y bydd angen i'r Cyngor ei llenwi. Mae swydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a Pharth Cyhoeddus hefyd yn wag. Dan yr amgylchiadau hyn, mae ar y Cyngor angen ystyried a oes angen newid cyfansoddiad Bwrdd HSDd Cyf neu barhau â'r swydd wag.

4.6. Cynigir diwygio cyfansoddiad Bwrdd HSDd Cyf fel y bydd y swydd a ddyrennir i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus yn cael ei gwneud yn hytrach gan aelod o Dîm Arwain Strategol y Cyngor.

4.7. Mantais y newid hwn i gyfansoddiad Bwrdd HSDd Cyf yw y bydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Cyngor i ddewis pwy i'w benodi fel Cyfarwyddwr.

4.8. Mae'r Bwrdd Llywodraethu Strategol wedi ystyried y gwelliant a gynigir i gyfansoddiad y Bwrdd ac yn ei gyfarfod ar 25 Hydref 2021, wedi argymhell y dylid diwygio'r cyfansoddiad fel yr awgrymir ac y dylid enwebu o'r Tîm Arwain Strategol.

4.9. Ymgynghorwyd â Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig ar y newid a gynigir i gyfansoddiad y Bwrdd. Mae'r Cyngor wedi cael ymateb gan y cwmni. Barn HSDd Cyf yw y dylai swydd y cyfarwyddwr barhau'n wag ar hyn o bryd.

4.10. Ymgynghorwyd â'r Tîm Gweithredol Corfforaethol a'r Tîm Arwain Strategol a argymhellodd y dylid enwebu Nicola Stubbins, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau i'r Cyngor i'w phenodi i Fwrdd HSDd Cyf fel cyfarwyddwr. Ymgynghorwyd ag aelodau'r Bwrdd Llywodraethu Strategol fel y nodir ym mharagraff 8.2 o'r adroddiad hwn. Canlyniad yr ymgynghoriad hwnnw oedd bod mwyafrif llethol aelodau'r Bwrdd yn cytuno â'r argymhelliad.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. Nid yw'r adroddiad yn cael effaith uniongyrchol ar y blaenoriaethau corfforaethol.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

7.1. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1. Mae'r Bwrdd Llywodraethu Strategol wedi ystyried y cynnig i newid cyfansoddiad Bwrdd HSDd Cyf fel y disgrifiwyd uchod ac wedi cytuno i argymhell y newid hwn i'r Cyngor. Ymgynghorwyd â'r Tîm Gweithredol Corfforaethol ar y cynnig, a chadarnhaodd ei fod yn cytuno. Ystyriodd y Tîm Gweithredol Corfforaethol hefyd unigolyn o'r Tîm Arwain Strategol i gael ei benodi, a chynigiodd y dylid argymhell penodi Nicola Stubbins fel cyfarwyddwr. Mae'r Tîm Arwain Strategol wedi cymeradwyo'r argymhelliad hwn. Ymgynghorwyd â HSDd Cyf ac maent wedi ysgrifennu i fynegi eu barn y dylai'r swydd ar Fwrdd HSDd Cyf barhau'n wag ar hyn o bryd.

8.2. Oherwydd amseriad yr adroddiad hwn, roedd angen ymgynghori ag aelodaeth y Bwrdd Llywodraethu Strategol trwy e-bost. Ni ymatebodd un aelod mewn pryd i baratoi'r adroddiad hwn. Cytunodd un aelod a ymatebodd â safbwynt HSDd Cyf y dylai'r swydd aros yn wag hyd nes y bydd unrhyw adolygiad o strwythur uwch reolwyr y Cyngor. Cytunodd y 6 aelod arall o'r Bwrdd a ymatebodd â'r argymhelliad a nodir ym mharagraff 3.2 yr adroddiad hwn, ac y dylai'r Cyngor ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 7fed Rhagfyr 2021.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1. Er nad oes goblygiadau ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn, mae'n bwysig bod trefniadau llywodraethu cadarn yn cael eu cynnal i helpu i leihau'r risgiau i'r dyfodol. Cefnogir yr adroddiad yn llawn.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Drwy gynnal swydd wag ar Fwrdd HSDd Cyf, mae risg nad yw'r Cyngor yn darparu cefnogaeth a goruchwyliaeth ddigonol i'r cwmni.

## **11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

11.1. a111 Deddf Llywodraeth Leol 1972

11.2. Erthygl 13 Erthyglau Cymdeithas Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig.